| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Meddyginiaeth – Meithrinfa Toybox<br>Medication - Toybox Nursery |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Students Nursery parents, staff and children |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Impact assessment* |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | *Rhestrwch nhw / Please list*<br>Staff y Feithrinfa<br>Nursery staff | | |
| **Dyddiad cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | *Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *22/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | *3101/2028* | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys**

**Meddyginiaeth**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Meddyginiaeth ar bresgripsiwn gan feddyg, deintydd, nyrs neu fferyllydd | 2 |
| 2. | Meddyginiaeth heb bresgripsiwn *(ni roddir y rhain fel arfer)* | 2 |
| 3. | Pigiadau, pesarïau, tawddgyffuriau | 3 |
| 4. | Meddyginiaeth staff | 3 |
| 5. | Storio | 3 |


Ym **Meithrinfa Toybox** rydym yn hyrwyddo iechyd da'r plant sy'n mynychu'r feithrinfa a chymryd y camau angenrheidiol i atal lledaenu heintiau (gweler y polisi salwch). Os oes angen meddyginiaeth ar blentyn, byddwn yn cael gwybodaeth am anghenion y plentyn ar gyfer hyn a byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei diweddaru.

Rydym yn dilyn canllawiau llym wrth ymdrin â meddyginiaeth o unrhyw fath yn y feithrinfa ac mae'r rhain wedi'u nodi isod.

**1. Meddyginiaeth ar bresgripsiwn gan feddyg, deintydd, nyrs neu fferyllydd**
*(Ni roddir meddyginiaethau sy'n cynnwys asbirin oni bai eu bod ar bresgripsiwn gan feddyg)*
1.1 Bydd meddyginiaeth ar bresgripsiwn ond yn cael ei rhoi yn ôl y dos a nodwyd i'r unigolyn a enwir ar y botel
1.2 Mae'n rhaid i'r meddyginiaethau fod yn eu cynwysyddion gwreiddiol
1.3 Ni roddir meddyginiaeth sydd wedi dyddio. Cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw sicrhau bod y feddyginiaeth yn gyfredol.
1.4 Dylai'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant am unrhyw blentyn sydd ag angen meddyginiaeth ar bresgripsiwn drosglwyddo'r feddyginiaeth i'r aelod staff mwyaf priodol a fydd wedyn yn nodi manylion y weinyddiaeth ar y ffurflen briodol.
1.5 Ni fydd y feithrinfa'n rhoi dos sy'n fwy na'r dos a argymhellir ar y cyfarwyddiadau oni bai bod cyfarwyddiadau ysgrifenedig gan weithiwr iechyd proffesiynol perthnasol fel llythyr gan feddyg neu ddeintydd
1.6 Mae'n rhaid gofyn i'r rhiant pryd cafodd y plentyn y feddyginiaeth ddiwethaf cyn dod i'r feithrinfa ac mae'n rhaid i'r cydweithiwr gofnodi'r wybodaeth hon ar y ffurflen feddyginiaeth. Yn yr un modd, pan ddaw'r rhiant neu warcheidwad i gasglu'r plentyn, mae'n rhaid iddo gael gwybodaeth fanwl am yr amseroedd a'r dosau a roddwyd yn ystod y dydd. Mae'n rhaid cael llofnod y rhiant y ddau dro
1.7 Ar adeg rhoi'r feddyginiaeth, bydd aelod uwch o staff yn gofyn i'r plentyn gymryd y feddyginiaeth, neu ei chynnig mewn modd derbyniol i'r plentyn ar yr amser penodedig ac ar y ffurf ragnodedig. (Mae'n bwysig nodi nad oes gorfodaeth gyfreithiol ar staff sy'n gweithio gyda phlant i roi meddyginiaeth)
1.8 Nodir ar y ffurflen pe bai plentyn yn gwrthod y feddyginiaeth briodol.
Lle bo'r feddyginiaeth yn "hanfodol" neu efallai fod sgil effeithiau iddi, trafodir gyda'r rhiant er mwyn penderfynu ar yr ymateb priodol.

**2. Meddyginiaeth heb bresgripsiwn *(ni roddir y rhain fel arfer)***
2.1 Ni fydd y feithrinfa'n rhoi unrhyw feddyginiaeth heb bresgripsiwn sy'n cynnwys asbirin
2.2 Bydd y feithrinfa ond yn rhoi meddyginiaeth heb bresgripsiwn am gyfnod byr i ddechrau, yn dibynnu ar y feddyginiaeth neu gyflwr y plentyn. Ar ôl yr amser hwn, dylid ceisio sylw meddygol
2.3 Pe bai'r feithrinfa'n teimlo y byddai'r plentyn yn elwa o gael sylw meddygol yn hytrach na meddyginiaeth heb bresgripsiwn, rydym yn cadw'r hawl i wrthod rhoi gofal yn y feithrinfa nes i'r plentyn gael ei weld gan ymarferydd meddygol
2.4 Pe bai angen parasetamol hylif neu feddyginiaeth debyg ar blentyn yn ystod ei amser yn y feithrinfa, bydd meddyginiaeth o'r fath yn cael ei thrin fel meddyginiaeth ar bresgripsiwn gyda'r feithrinfa'n darparu un math penodol o feddyginiaeth os yw rhieni'n dymuno defnyddio hwn
2.5 Wrth gofrestru, byddwn yn gofyn i rieni a hoffent lenwi ffurflen feddyginiaeth sy'n rhoi caniatâd i blentyn gael math penodol o barasetamol hylif neu wrth-histamin mewn amgylchiadau penodol fel cynnydd yn nhymheredd y plentyn neu bigiad cacwn neu wenyn. Bydd y ffurflen yn nodi'r dos a roddir, yr amgylchiadau y gellir ei rhoi e.e. cynnydd yn nhymheredd y plentyn, yr enw brand penodol neu'r math o feddyginiaeth heb bresgripsiwn a datganiad wedi'i lofnodi i ddweud y gellir ei rhoi mewn argyfwng os na ALL y feithrinfa gysylltu â'r rhiant
2.6 Bydd cyflenwad brys y feithrinfa o feddyginiaeth lleddfu twymyn (e.e. Calpol) a gwrth-histaminau (e.e. Piriton) yn cael ei storio ar y safle. Bydd hyn yn cael ei wirio'n rheolaidd gan y swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig dynodedig i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau storio a'i fod yn dal i fod yn gyfredol

Os yw’r plentyn yn arddangos y symptomau a bod caniatâd wedi’i dderbyn eisoes i roi meddyginiaeth heb bresgripsiwn yn ystod y diwrnod yn y feithrinfa, bydd y feithrinfa’n gwneud pob ymdrech i gysylltu â rhieni’r plentyn. Lle na ellir cysylltu â rhieni yna bydd rheolwr y feithrinfa'n penderfynu a yw'r plentyn yn ddiogel i gael y feddyginiaeth hon yn seiliedig ar yr amser y mae'r plentyn wedi bod yn y feithrinfa, yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r angen am y feddyginiaeth hon a hanes meddygol y plentyn ar ei ffurflen gofrestru. Dewis olaf fydd rhoi meddyginiaeth heb bresgripsiwn a bydd staff y feithrinfa'n defnyddio dulliau eraill yn gyntaf i geisio lliniaru'r symptomau, e.e. ar gyfer cynnydd yn y tymheredd bydd y feithrinfa'n tynnu dillad, yn defnyddio ffan, oeri graddol gyda gwlanen wlyb. Bydd y plentyn yn cael ei fonitro’n agos nes i’r rhieni ddod i gasglu’r plentyn

2.7 Ar gyfer unrhyw hufen heb bresgripsiwn ar gyfer cyflyrau croen e.e. Sudocrem, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y rhiant ac mae'r cyfrifoldeb ar y rhiant i ddarparu'r hufen y dylid ei labelu'n glir ag enw'r plentyn

2.8 Os daw unrhyw blentyn i’r feithrinfa mewn cyflwr lle gallai fod angen meddyginiaeth arno ryw ben yn ystod y dydd, bydd y rheolwr yn penderfynu a yw’n beth doeth gadael y plentyn yn y feithrinfa. Os yw’r plentyn yn aros, rhaid gofyn i’r rhiant a oes unrhyw fath o feddyginiaeth wedi cael ei roi eisoes, pryd, pa ddos ac mae’n rhaid nodi hyn ar y ffurflen feddyginiaeth

2.9 Yn yr un modd ag unrhyw fath o feddyginiaeth, bydd staff yn sicrhau bod y rhiant yn cael gwybod am unrhyw feddyginiaethau heb bresgripsiwn a roddir i'r plentyn tra bydd yn y feithrinfa, ynghyd â'r amseroedd a'r dos a roddir

2.10 NID YW’R feithrinfa yn rhoi unrhyw feddyginiaeth oni bai ei bod wedi cael caniatâd ysgrifenedig ar gyfer pob un feddyginiaeth.

**3. Pigiadau, pesarïau, tawddgyffuriau**

Gan fod rhoi pigiadau, pesarïau a thawddgyffuriau yn rhan o nyrsio ymwthiol, ni fyddwn yn rhoi'r rhain heb hyfforddiant meddygol priodol ar gyfer pob aelod o staff sy'n gofalu am y plentyn hwn. Mae’r hyfforddiant hwn yn benodol i bob plentyn ac nid yw’n generig. Bydd y feithrinfa yn gwneud popeth o fewn ei gallu i wneud unrhyw addasiadau rhesymol gan gynnwys gweithio gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i drefnu bod swyddogion iechyd priodol yn hyfforddi staff i roi'r feddyginiaeth.

**4. Meddyginiaeth staff**

4.1 Mae gan staff y feithrinfa gyfrifoldeb i weithio gyda phlant dim ond os ydynt mewn cyflwr i wneud hynny. Mae’n rhaid i staff beidio â gweithio gyda phlant pan maent yn heintus neu’n rhy sâl i ddiwallu anghenion plant. Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau lle mae unrhyw feddyginiaeth a gymerir yn effeithio ar eu gallu i ofalu am blant, er enghraifft, lle mae'n gwneud unigolyn yn gysglyd. Os yw unrhyw aelod o staff yn credu bod eu cyflwr, gan gynnwys unrhyw gyflwr a achosir gan gymryd meddyginiaeth, yn effeithio ar eu gallu rhaid iddynt roi gwybod i’w rheolwr atebol a cheisio cyngor meddygol. *Bydd rheolwr y feithrinfa/rheolwr atebol yr unigolyn/darparwr cofrestredig yn penderfynu a yw aelod o staff mewn cyflwr i weithio, gan gynnwys amgylchiadau lle mae aelodau eraill o staff yn sylwi ar newidiadau mewn ymddygiad sy'n awgrymu y gallai unigolyn fod o dan ddylanwad meddyginiaeth. Bydd y penderfyniad hwn yn cynnwys unrhyw gyngor meddygol a geir gan yr unigolyn neu o asesiad iechyd galwedigaethol.

4.2 Lle bo angen meddyginiaeth ar staff o bryd i'w gilydd neu'n rheolaidd, rhaid cadw unrhyw feddyginiaeth o'r fath yn yr ystafell y staff. Ym mhob achos rhaid ei storio allan o gyrraedd y plant.

**5. Storio**

5.1 Mae’n rhaid i feddyginiaeth fod yn ei gynhwysydd gwreiddiol gydag enw’r plentyn wedi ei ysgrifennu’r glir arno, ac wedi ei gadw allan o gyrraedd y plentyn.

5.2 Bydd meddyginiaeth frys, fel anadlwyr ac EpiPens, o fewn cyrraedd hawdd i staff rhag ofn y bydd angen ar unwaith, ond byddant yn aros y tu hwnt i gyrraedd plant.

5.3 Rhaid cadw unrhyw wrthfiotigau sydd angen eu cadw’n oer mewn oergell sydd allan o gyrraedd y plant.

5.4 Rhaid i bob meddyginiaeth fod yn eu cynwysyddion gwreiddiol, rhaid i labeli fod yn ddarllenadwy ac ni ddylid ymyrryd â nhw neu ni fyddant yn cael eu rhoi. Dylai fod manylion a nodiadau'r fferyllydd ynghlwm wrth bob meddyginiaeth ar bresgripsiwn i ddangos y dos sydd ei angen a'r dyddiad y rhoddwyd y presgripsiwn. Bydd hyn yn cael ei wirio, ynghyd â dyddiadau dod i ben cyn i staff gytuno i roi meddyginiaeth.

5.5 Bob amser, pan ddilynir gweithdrefnau ysgrifenedig, bernir bod staff hyfforddedig wedi gweithredu'n ddidwyll. Mae'n ofynnol i staff hyfforddedig weithredu fel y byddai rhiant/gofalwr gofalgar ac ***nid*** fel gweithiwr proffesiynol wedi'i hyfforddi'n feddygol.